# PECYN D | RHAN 5 – GWYBODAETH AM RYWOGAETHAU A WARCHODIR A BLYCHAU BYWYD GWYLLT

**Mae Llywodraeth Cymru, yr Awdurdod Lleol a'r contractwyr sy'n cyflenwi'r cynllun hwn wedi ymrwymo i warchod bywyd gwyllt.**

**Rhywogaethau a warchodir**

Mae insiwleiddio waliau allanol yn gallu peryglu bywyd gwyllt a warchodir. Ystlumod ac adar yw'r mwyaf agored i niwed. Mae ystlumod wedi'u gwarchod yn llawn rhag cael eu niweidio a rhag dinistrio'u mannau gorffwys dan gyfraith Ewropeaidd, sef y lefel uchel o warchodaeth bywyd gwyllt. Mae adar gwyllt sy'n nythu wedi'u gwarchod dan gyfraith y Deyrnas Unedig.

Mae ystlumod yn cael eu gwarchod oherwydd 1) mae cynefinoedd ystlumod yn cael eu colli trwy'r adeg; 2) mae poblogaethau ystlumod yn araf yn adfer am fod ystlumod yn magu'n araf iawn; 3) mae'r niferoedd wedi dirywio'n sydyn ar draws Ewrop gyfan; 4) yn groes i'r gred gyffredinol, mae ystlumod yn hynod o bwysig i'r amgylchedd. Nid pla neu fermin ydyn nhw ond maen nhw'n bwyta pla fel mosgitos, gwybed bach, chwilod ac ati.

**Arolygon ac ystyriaethau o ran ystlumod ac adar**

Cynhelir arolygon ystlumod ac adar ar eiddo sy'n addas ar gyfer y cynllun IWAS hwn. Mae'r arolygon yn cynnwys archwiliad allanol o'r adeilad gan ecolegydd, all gynnwys archwilio gwagle yn y to (gyda chaniatâd y perchennog). Gellir hefyd cynnal arolygon ystlumod yn ystod oriau'r nos (hwyrnos a gwawr), sy'n cynnwys archwilio'r ardal yn gyffredinol gydag offer canfod a chofnodi presenoldeb ystlumod. Mi allech chi weld yr ecolegwyr yn cerdded o amgylch yr ardal yn gyffredinol gyda'u hoffer, yn nodi unrhyw weithgaredd ystlumod yn yr ardal yn ystod y dydd, yn yr hwyrnos neu gyda'r wawr!

Os deuir o hyd i glwyd ystlumod bosib neu os oes yna adar yn nythu ar eiddo, yna gall fod angen addasu rhywfaint ar yr IWAS, a/neu osod blychau bywyd gwyllt i sicrhau bod bywyd gwyllt yn gallu parhau i ddefnyddio'r mannau hyn, ac er mwyn cwrdd â gofynion a dyletswyddau cyfreithiol.

**Ymrwymiad i wella cynefinoedd fel rhan o gynllun gwella ynni**

Er mwyn gwella cynefinoedd ystlumod ac adar fel rhan o'r cynllun, gosodir blychau bywyd gwyllt ar rhai o'r tai. Nodir unrhyw dai addas yn ystod yr arolygon. Bydd yr ecolegydd yn cynghori rheolwr y prosiect ar y lleoliadau gorau ar gyfer blychau ystlumod. Ni fydd y blychau'n cael eu gosod ar unrhyw eiddo heb gael caniatâd y perchennog ymlaen llaw.

**Gwybodaeth am flychau ystlumod ac adar**

1) Mae'r math o flychau bywyd gwyllt a osodir yn hunangynhaliol, yn gynnil ac yn gallu gwrthsefyll y tywydd. Mae'r blychau ystlumod yn cael eu gosod yn yr insiwleiddiad ei hun, yna cânt eu rendro i gyd-fynd â gweddill y wal; dim ond hollt/mynedfa fach sydd i'w gweld. Mae rhai blychau adar yn cael eu gosod yn yr insiwleiddiad ac eraill yn cael eu gosod ar yr arwyneb. Darperir mathau gwahanol o flychau adar ar gyfer rhywogaethau gwahanol (e.e. teras adar y to neu nyth cwpan ar gyfer gwennol y bondo).
2) Does dim angen cynnal a chadw'r blychau na'u glanhau. Mae baw'r ystlumod yn disgyn allan o'r hollt ar y gwaelod ac yn cael ei olchi i ffwrdd gan y glaw. Ni osodir y blychau uwchben ffenestri neu ddrysau.
3) Ni ddylai'r blychau ystlumod achosi unrhyw broblemau gydag ystlumod. Mae'n bosib na fyddwch chi hyd yn oed yn sylwi arnyn nhw. Mae'n hynod o annhebygol y bydd problem yn codi, ond os felly, bydd yr ecolegydd yn ei datrys heb unrhyw gost i berchennog yr eiddo. Nid yw baw ystlumod yn annymunol yn yr un modd â baw cŵn, cathod neu lygod; mae baw ystlumod yn sych a phowdrog ac yn toddi'n gyflym pan fydd hi'n bwrw glaw.
4) Os bydd ystlumod yn symud i mewn i flwch ystlumod sydd wedi'i osod ar dŷ, nid yw hynny'n golygu y byddan nhw'n ceisio symud i mewn i rannau eraill o'r adeilad.
5) Mae yna nifer o wahanol fathau o ystlumod yng Nghymru ond y rhywogaeth sy'n fwyaf tebygol o ddefnyddio'r blychau yw'r ystlum cyffredin a'r ystlum lleiaf uchelsain, ac o bosib yr ystlum hirglust.
6) Mae'r mathau mwyaf cyffredin o adar sy'n defnyddio adeiladau yn cynnwys aderyn y to, y titw tomos las, gwennol y bondo a'r robin goch.

**Mwy o wybodaeth am ystlumod ac adar**

Mae mwy o wybodaeth am ystlumod ac adar ar gael ar wefan yr Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod: www.bct.org.uk
Mae mwy o wybodaeth am adar ar gael gan yr RSPB: www.rspb.org.uk

Gofynnwn ichi gefnogi'ch bywyd gwyllt lleol. Rydym yn byw mewn ardal wledig sydd â chyfoeth o fioamrywiaeth, a dylem fod yn falch o hynny.
Diolch yn fawr!

---

Os hoffech chi siarad ag ecolegydd, gofynnwch i reolwr y swyddfa i drefnu hynny